

❖ ‘DAETH DUWDOD MEWN BABAN I’R BYD’

Brawddegau

Y bobl oedd yn rhodio mewn tywyllwch
a welodd oleuni mawr;
y rhai a fu’n byw mewn gwlad o gaddug dudew
a gafodd lewyrch golau...

Canys bachgen a aned i ni, mab a roed i ni,
a bydd yr awdurdod ar ei ysgwydd.
Fe’i gelwir ‘Cynghorwr rhyfeddol, Cawr o ryfelwr,
Tad bythol, Tywysog heddychlon’.

Emyn Caneuon Ffydd, 283

Rhyfeddu ’rwyf, O Dduw,
dy ddyfod yn y cnawd,
rhyfeddod heb ddim diwedd yw
fod Iesu imi’n Frawd.

Darllen: Ioan 1:1–14**Unawd:** (Tôn: ‘Joy to the world’)

Cydlawenhawn, fe ddaeth yr Iôr;
Croesawn ein Brenin mawr!
Yng nghalon dyn agorwyd dôr –
O! caned teulu’r llawr;
O! caned, O! caned teulu’r llawr.

Cydlawenhawn, gorseddwyd Iôr;
O! taenwn hyn ar goedd;
Ar fryn a dôl, tros dir a môr
Atseinied llawen floedd;
Atseinied, atseinied llawen floedd.

Ni bydd na chur, na chalon friw,
Na chlais, na llidus glwy’,
Can’s daeth y Crist, â’i fendith wiw,
I ymlid melltith mwy;
I ymlid, i ymlid melltith mwy.

Gras a gwirionedd Crist o’r nef
A lywodraetha’r byd,
Dan faner ei gyfiawnder ef,
A gwyrthiau’r cariad drud;
A gwyrthiau, a gwyrthiau’r cariad drud.

*Isaac Watts (cyfaddasiad)***Gweddi**

Dirion Dad, ti yn unig yw gwrthrych ein haddoliad, gwrandawr cyson ein gweddiâu, a gwir destun ein mawl.
Derbyn ddefosiwn dy bobl, yma a ledled daear, fel cyfrwng i’th ogoneddu di, a dwyn y neges am Iesu Grist

i glyw bro, a chenedl a byd cyfan, fel bo pawb yn cael eu dwyn i adnabyddiaeth lwyrach ohonont ti, ac o’th Fab, Iesu Grist ein Harglwydd.

Ymgysegrwn fel cynulleidfa, ar drothwy’r Nadolig, gan ddeisyf am dy dangnefedd ar ein haelwydydd, ac ym mywyd ein cenedl a’n byd. Ymlid o’n mysg y balch a’r trahaus, y treisiwr a’r gormeswr, a dyro dy gynhaliaeth i’r addfwyn a’r trugarog, a’th nawdd i’r cariadlon a’r tosturiol, O! Dduw ein Tad. Torred gwawr ewyllys da ar ein byd, fel y bydd neges lawen yr ŵyl yn cyrraedd nid un genedl, ond pob cenedl, gan sancteiddio nid un diwrnod mewn blwyddyn, ond pob diwrnod er dy ogoniant di.

Llewyrched dy oleuni dwyfol, Arglwydd, ym mannau tywyll ein daear. Deued y goleuni hwnnw’n obaith i’r carcharor trwy farrau tywyll ei gell, i’r claf ynghanol cystudd ei ystafell, i’r unig yn ei gornel gyfyng, i’r tlawd a’r newynog ynghanol eu byd llwm, ac i’r profedigaethus a’r tralodus ynghanol anterth y storm sy’n curo arnynt.

Boed yr ŵyl sy’n nesáu yn achlysur gobaith i’r ddynolryw, ac yn foddion adnewyddiad i fyd ac eglwys fel ei gilydd. Dathlwn mewn llawenydd ddyfodiad Iesu Grist yn y cnawd i drigo yn ein plith, a gorfoleddwn yn y gwirionedd mai drosom ni y daeth, er mwyn i ninnau gael dod yn ddeiliaid i’w deyrnas. Gwisgodd ein gwendid a’n meidroldeb er mwyn cydymddwyn â’n poen a’n helbul.

‘Caed baban bach mewn preseb
drosom ni...’

ac yn hyn, O! Dad, y mae ein gobaith a’n hyder, ein gobaith am faddeuant a thrugaredd, a’n hyder yn yr iachawdwriaeth sy’n eiddo i ni, trwy Iesu Grist ein Harglwydd. Ac ef a’n dysgodd i’th gyfarch, mewn gweddi, gan ddweud, **‘Ein Tad... Amen.**

Carol: Caneuon Ffydd 466

Ganol gaeaf noethlwm
cwynai’r rhewynt oer,
ffridd a ffrwd mewn cloeon
llonydd dan y lloer:
eira’n drwm o fryn i dref,
eira ar dwyn a dôl,
ganol gaeaf noethlwm
oes bell yn ôl.

Christina Rossetti (cyf. S. B. Jones)

Myfyrdod:

Luc 2:7: ‘Ac esgorodd ar ei mab cyntafanedig; a rhwymodd ef mewn dillad baban.’

Mae Robin Williams yn yr ysgrif gyntaf un yn ei gyfrol *Lliw Haul* yn sôn am y tro hwnnw pan ddaethpwyd â’i ŵyr bach yn faban tri mis oed i fwrw Sul am y waith gyntaf ar aelwyd ei daid a’i nain. Fel hyn y mae’n disgrifio’r profiad:

Dyna lle ’roedd y sypyn eiddil tri mis oed yn gorwedd yn fwndel diymadferth, heb fedru gofyn yr un gair, nac ateb yr un sill. Heb fedru codi. Heb fedru cerdded. Heb fedru ymolchi. Heb fedru gwneud na thamaid na llymaid iddo’i hun, na’i ymgeleddu’i hun mewn unrhyw ffordd yn y byd. Mi fûm yn syllu arno’n hir, hir mewn rhyfeddod, a sylweddoli peth fel hyn, a hynny o newydd: cyn belled ag yr oedd y babi yn y cwestiwn, yr oedd yn dibynnu’n gyfan gwbl ar ofal oedd yn llwyr y tu hwnt i’w grebwyll ef ei hunan. Yn hollol y tu draw i’w ddeall.

Darlun o ddiymadferthedd yw darlun Robin Williams, ac y mae wedi dewis eglureb benignamp i ddisgrifio’r cyflwr hwnnw. Does dim un darlun huotlach yn y byd i gyd o berson sydd ar drugaredd pawb a phopeth o’i gwmpas na’r darlun o faban bach. Rhyfedd meddwl, felly, bod yr Efengyl yr ydych chi a minnau’n credu ynddi yn troi o gylch yr union echel honno: echel y Baban Diymadferth. A rhyfeddach fyth yw sylweddoli mai Mab Duw ei hun yw’r Baban hwnnw. Dyma graidd ein Ffydd, a dyma’r hyn yr ydym yn ei ddathlu ar adeg y Nadolig:

‘Daeth Duwdod mewn Baban i’n byd’

Pennaf rhyfeddod y Nadolig, felly, yw dyfod Duw i’n byd yn rhith baban bach. Roedd Ioan wedi gweld rhyfeddod y digwyddiad hwnnw, a’i groniclo ar ddechrau ei Efengyl: ‘A daeth y Gair yn gnawd a

phreswyllo yn ein plith.’ A byth oddi ar hynny mae Cristnogion yr oesau wedi rhoi mynegiant i’w syndod a’u rhyfeddod hwythau. Dyma’r nodyn a drawyd gan Pantycelyn, gynt:

Ymhlith holl ryfeddodau’r nef
hwn yw y mwyaf un –
gweld yr anfeidrol, ddwyfol Fod
yn gwisgo natur dyn.

Y peth cyntaf oll a wnaeth y ddynolryw â Duw-yn-y-cnawd oedd gwsigo dillad am ei noethni. Mair ei fam oedd y gyntaf un i wneud hynny. Ebe Luc yn ei Efengyl: ‘...esgorodd ar ei mab cyntafanedig; a rhwymodd ef mewn dillad baban.’ ‘Rhwymodd’, sylwer, oherwydd dyna oedd dull y cyfnod hwnnw o ymgeleddu’r baban; rhwymo sribedi o gadachau amdano i’w gadw rhag chwipiadau’r ‘rhewynt oer’.

Mae’r broses o wisgo Duw-yn-y-cnawd wedi mynd rhagddi fyth oddi ar hynny. Mae’r cenedlaethau a’r canrifoedd wedi rhwymo cadachau eu hymgeledd a’u defosiwn a’u cred o gylch person y baban Iesu, hyd at ein cyfnod ni. Yn wir, mae’r broses yn mynd rhagddi o hyd, ac mae Cristnogion cyfoes yn rhan ohoni.

Mae modd craffu ar ddechreuadau’r broses ar dudalennau’r Testament Newydd, yn enwedig yng nghofnod y ddwy efengyl, sef Mathew a Luc, sy’n portreadu babandod Iesu Grist. Dyma yw Storiâu Geni Mathew a Luc; ymgais y naill Efengyllydd a’r llall i wisgo cadachau eu defosiwn a’u cariad am y baban Iesu.

Mae’r Storiâu Geni hyn yn dwyn i gof un o hen arferion Cymru, yn enwedig ymhlith merched ifainc Cymru, sef yr arfer o weithio sampler. Dyna oedd y sampler Cymreig: llafurwaith cariad, a brodwaith defosiwn merched Cymru. A dyna hefyd oedd Storiâu Geni’r Efengylau, mewn gwirionedd: sampleri defosiwn Eglwys Iesu Grist i’w Harglwydd, a Mathew a Luc yw’r ddau sydd â’r nodwydd yn eu dwylo celfydd.

Does dim amheuaeth ynghylch pwy sydd i’w ddodi yng nghanol y sampler. Pwy arall ond Iesu Grist, yn gorwedd mewn preseb, a’r angylion yn hofran o gylch y lle? Gellwch chi fentro nad yn nhw ddim ymhell o’r fan oherwydd eu gwaith nhw yw cydio nef a llawr; hebryngwyr y datguddiad dwyfol i fyd dynion. A fu rhyfeddach dyfais mewn sampler erioed na Mab Duw mewn preseb? Ie, mewn preseb! Os yw diwinyddion yr ugeinfed ganrif wedi mynnu rhoi Iesu Grist yng ngharfan y gwrthodedig a’r difreintiedig, ac yng nghwmni’r ‘olaf a’r lleiaf a’r tlotaf’, beiwch Mathew a Luc a’u sampleri. Nhw yw’r hyfforddwyr!

O gylch y preseb, mae Mathew wedi rhoi lle anrhydedd i’r sêr-ddewiniaid hynny a ddygodd eu rhoddion drudfawr mewn gwrogaeth, gan gynrychioli defosiwn y rhai uchel-eu-tras yn yr hen fyd. Ond yn union fel pe bai am achub y blaen ar unrhyw gamagraff, mae Luc yn rhoi lle amlwg yn ei sampler yntau i fugeiliaid gwerinol y maes nad oedd ganddyn nhw unrhyw rodd i’w chyflwyno ac eithrio’r rhodd bwysicaf oll, sef defosiwn y galon.

Mae un ddyfais athrylithgar yn sampler Luc. Ef a gafodd y syniad braf o frodio nodau cerddoriaeth i mewn i’w sampler, yn union fel pe bai’n benderfynol o bortreadu genedigaeth Gwardwr ein byd fel y digwyddiad mwyaf llawen a fu erioed. Ac mae cymeriadau’r sampler yn torri allan i ganu: yr angylion a’u *Gloria in Excelsis*; Mair a’i *Magnificat*; Sechareia a’i *Benedictus*; Simeon a’i *Nunc Dimittis*. Bron na ddywedech chi fod y sampler i gyd yn canu, ac yn gwneud hynny i groesawu Gwardwr y Byd.

Nid cofnod moel o hanes yr Enedigaeth ryfeddol yw Storiâu Geni Mathew a Luc, felly, ond myfyrdod yr Eglwys mewn dyddiau cynnar ar ffaith yr Ymgawdoliad, a hynny dros gyfnod o ddwy genhedlaeth. Ym mrodwaith defosiwn y ddau Efengyllydd mae’r broses o wisgo cadachau am berson Mab Duw yn ei noethni a’i ddiymadferthedd eisoes wedi dechrau.

Go brin bod angen dweud bod pob cenedlaeth ddilynol wedi pwytho ei theyrnged arbennig ei hun i mewn i frodwaith cyfansawdd y Ffydd. Ac fe wnaed hynny mewn amrywiol ffyrdd: trwy lunio credoau; trwy adeiladu eglwysi a chadeirlannau a chapeli; trwy ysgrifennu cyfrolau diwinyddol; trwy gerddoriaeth gysegredig; trwy arlunwaith gain. Mewn mil ac un o ffyrdd rŷm ninnau wedi bod â rhan yn y broses o rwymo cadachau ein hymgeledd a’n defosiwn am berson y baban Iesu.

Cofiwch chi, dwyf i ddim yn siwr bod cadachau ein defosiwn wedi bod yn gymwynas â pherson Iesu Grist bob amser. Yn wir, byddwn i am awgrymu bod y fath beth yn bosibl â defosiwn ‘cyfeiliornus’!

Rŷm ni i gyd yn gyfarwydd, er enghraifft, â chlywed pobl yn sôn am eu teimlad o anniddigrwydd wrth gerdded i mewn i eglwys wedi ei goreuro’n gelfydd ac ysblennydd o ganol y tloidi a’r llwydni sy’n ei hamgylchynu. Mae rhywbeth yn y gwrthgyferbyniad sydyn sy’n gwneud i’r ymwelydd deimlo’n anghysurus. Pan fo defosiwn crefyddol yn cael mynegiant ar draul dibristod o angen cyd-ddyn, mae’n bryd i rywun weiddi ‘Cyfeiliorn!’

Beth am enghraifft arall? Pe baem ni'n mynd ar bererindod i Fethlehem y Nadolig hwn, ac yn ymweld â mangre geni Iesu Grist, nid preseb amrwd a welem mewn ogof neu feudy, ond un o eglwysi enwocaf y Ffydd Gristnogol, sef Eglwys y Geni, a adeiladwyd yn ôl yn y bedwaredd ganrif gan yr Ymherodr Cystennin fel un o'i gyfraniadau sylweddol ef i frodwaith y Ffydd. Fe'i codwyd ar safle hen ogof, sef man tybiedig geni Iesu Grist. Ond fe glywais fwy nag un person a ymwelodd â'r fan yn cwyno bod y bensaerniaeth addurniedig yn anghydnaws â'r darlun o fan geni Iesu Grist a oedd wedi'i argraffu ar eu dychymyg.

Fe ellir dadlau mai mater o farn yw hyn, neu fater o chwaeth. Yn wir, mae cerydd ambell Iddew yn dal i seinio yn fy nghlust – cerydd arnom ni Gristnogion oherwydd ein bod ni am droi llecynnau cysegredig gwlad Iesu Grist yn '*time capsules*', neu amgueddfeydd, yn union fel roedden nhw yn nyddiau Iesu. 'Onid oes hawl gan ein cenedl ninnau i gerdded i gyfnod newydd, fel unrhyw genedl arall?' – dyna'u cwestiwn treiddgar.

Gall ein defosiwn fod yn gyfeiliornus mewn ystyr arall, llawer mwy difrifol, serch hynny. Oherwydd gallwn wneud '*time capsule*' o'r darlun o'r baban Iesu yn ei grud! Mae llawer ohonom yn gwrthod caniatáu i Iesu ddod allan o'i gadachau, ac rŷm ni am ei gadw'n garcharor yn ei breseb. Dyna ble roedd pan glywsom ni amdano gyntaf erioed yn nrama Nadolig y plant, ac er ein bod ni wedi tyfu allan o'n hadenydd angylion a'n dillad bugail a'n coronau brenhinol, rŷm ni'n benderfynol o adael Iesu yno, yng ngwellt y preseb, yn gorwedd yn ei gadachau.

Chafodd Iesu Grist erioed gyfle gan lawer ohonom i dyfu i'w lawn faintioli, yn w'r cydnherth deg ar hugain oed. Roesom ni erioed gyfle iddo i'n herio ni i fod yn ddisgyblion iddo, nac i gyhoeddi neges radical ei Bregeth ar y Mynydd; welsom ni erioed mohono ym mherson un o'r rhai lleiaf hynny sy'n frodyr ac yn chwirydd iddo, heb sôn am ei weld yn hongian ar groes dros ein pechodau, ac yn atgyfodi yn ein plith yn Grist byw. Oherwydd mae Iesu'n dal yn ei gadachau, yn gorwedd mewn preseb!

Fel yn hanes llawer eraill o brofiadau bywyd, mae'r bardd wedi gweld hyn yn eglur. Os darllenwch chi gerddi Nadolig beirdd Cymru, fe welwch eu bod nhw'n ymagweddu at yr ŵyl mewn dwy ffordd sydd am y pegwn â'i gilydd. Ar y naill law, maen nhw'n echrydu wrth feddwl am y modd rŷm ni wedi gwyrddroi ystyr yr ŵyl, a llurgunio neges y Geni. Dyna gwyn Llwyd Williams yn un o'i gerddi:

Cleddwch yr ŵyl, nid yw ond ysgerbwd,
Esgyrn y ginio, ysbwriel y wledd.
Teflwch i'r baban yr hosan deganau
A pheidiwch â sôn am aur, thus a myrr...

Cleddwch yr ŵyl, eiddo Mamon yw mwyach,
Mamon a masnach, miri a medd.
Gwisgasoch yr Iesu yng nghlogyn Santa
A phlannu'n ddiwreiddiau y goeden a'r tinsel
Lle gynt y bu'r Groes.

Bydd pob Cristion meddylgar yn deall protest Llwyd Williams. Ond ar waethaf pob gwyrddroi a llurgunio, fe wyddom ni mai'r dasg sy'n ein haros y Nadolig hwn, fel erioed, yw twrio trwy'r cadachau at y gwirionedd rhyfeddol sydd ynghudd oddi tanyh nhw: 'Daeth Duwdod mewn Baban i'n byd'.

Mae'r beirdd, mae'n dda gen i ddweud, wedi cael gweledigaeth o'r gwirionedd hwnnw, hefyd. Dyma Gwyn Erfyl yn dal y rhyfeddod o flaen ein llygaid:

Cofiwn Simeon, hen batriarch llwm,
Yn canu gorfoledd ei henaint i Hwn,
Ac Anna unig yng ngwyll ei chell
Yn gweled Gwardedwr y gobaith gwell.
Mynnwn anadlu Ei newydd hoen
A syndod Ei seren tros erwau'r boen.

Gorchfygwn hen fyd sy'n dragwyddol drist
A synnwn weld Cymru'n croesawu'r Crist.
Daeth mewn cadachau, aeth mewn drain,
Ond heno, a'n hoes dan y bicell fain,
Seiniwn ei salmau, dyblwn y gân,
Mae hedd di-gledd yn Ei ddwylo glân.
Amen.

Emyn: *Caneuon Ffydd 362*

Pob seraff, pob sant,
hynafgwyr a phlant,
gogoniant a ddodant i Dduw
fel tyrfa gytûn
yn beraidd bob un
am Geidwad o forwyn yn fyw.
Edward Jones, Maes-y-plwm

Y Fendith

Pan ymdaena cysgod hwyrnos
Dros y bryn, a'r maes a'r lli',
Iesu'r gwir oleuni, aros
Yn y caddug gyda ni.
A gras ein Harglwydd Iesu Grist, a chariad Duw, a chymdeithas yr Ysbryd Glân a fyddo gyda ni. Amen.